



9.30am, Dydd Mercher 2 Mai 2018
SCC002, Pencadlys Heddlu Dyfed Powys, Llangynnwr, Caerfyrddin

COFNODION

Yn bresennol	
Enw	Sefydliad
Barry Liles (Cadeirydd)	Coleg Sir Gâr
Cyng. Mair Stephens	Cyngor Sir Caerfyrddin
Huwel Manley	Cyfoeth Naturiol Cymru
Rob Quin	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Geraint Thomas	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Cyng. Jan Curtice	Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Prif Arolygydd Steve Thomas	Heddlu Dyfed-Powys
Carys Morgans	Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
Clare Parsons	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Jane Davidson	Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
Ros Jervis	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Sarah Jennings	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Anna Bird	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Yr Athro. Jean White	Llywodraeth Cymru
Marie Mitchell	Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin
Jonathan Feild	Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Hefyd yn bresennol	
Enw	Sefydliad
Gwyneth Ayers	Cyngor Sir Caerfyrddin
Kate Thomas	Cyngor Sir Caerfyrddin
Amy Richmond	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Dr Jeremy Williams	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Ymddiheuriadau	
Enw	Sefydliad
Cyng. Emllyn Dole	Cyngor Sir Caerfyrddin
Mark James	Cyngor Sir Caerfyrddin
Wendy Walters	Cyngor Sir Caerfyrddin
Steve Moore	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Bernardine Rees	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Yr Uwch-arolygydd Gary Mills	Heddlu Dyfed-Powys

Julian Atkins	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Deanne Martin	Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru
Helen Matthews	Yr Adran Gwaith a Phensiynau
Christine Harley	Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

- Estynnodd Barry Liles groeso i bawb i'r cyfarfod ac aethpwyd o amgylch y bwrdd yn cyflwyno pawb. Nodwyd penderfyniad y Cyngor Celfyddydau i ymadael â'r BGC. Roedd y llythyr yn hysbysu ynghylch eu penderfyniad i beidio bod yn aelodau gweithredol mwyach o unrhyw BGCau wedi cael ei rannu ymhlith yr aelodau.

2. Cofnodion a Materion yn Codi: 8 Mawrth 2018

- Derbyniwyd bod y cofnodion yn gywir, o ychwanegu enw Geraint Thomas, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, at y rhai a oedd yn bresennol.
- Rhoddwyd y newyddion diweddaraf am amryw o gamau gweithredu.
- Cam Gweithredu 3 - cadarnhawyd bod Grŵp Cyfathrebu'r BGC wedi cwrdd am y tro olaf er mwyn paratoi i gyflwyno'r Grŵp Cyflawni 'Ymgyrchoedd Cydgysylltiedig' Arferion Iach. Trafodwyd rhannu gwybodaeth am ymgyrchoedd a oedd wedi'u cynllunio dros y flwyddyn nesaf, a'r modd y byddai hynny'n cael ei ehangu i greu ymagwedd 'Ymgyrchoedd Cydgysylltiedig'.
- Cam Gweithredu 5 - cytunwyd i benderfynu, ar ôl cyflwyniad heddiw gan y Bwrdd Iechyd, a oedd angen o hyd am weithdy 'trawsnewid Gwasanaethau Iechyd Meddwl'.
- Cam Gweithredu 6 - bydd cyfarfod cyntaf y Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol er mwyn adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei gynnal ar 23 Mai, am 1pm yn Neuadd Sant Pedr yng Nghaerfyrddin.
- Cam Gweithredu 10 - Roedd cefnogaeth y BGC ar gyfer Prosiect Cydweithredol Y 1,000 Diwrnod Cyntaf wedi'i chadarnhau, a byddai hyn yn cael ei ddatblygu drwy'r Grŵp Cyflawni Ymyraethau Cynnar.
- Cam Gweithredu 15 - Cadarnhaodd Jean White fod Strategaeth Dementia Llywodraeth Cymru wedi cael ei lansio yng nghanol mis Chwefror ac bod cyllid ychwanegol o £10 miliwn wedi cael ei ddarparu.

GWEITHREDU

Sicrhau bod enw cynrychiolydd yn cael ei gadarnhau i fod yn bresennol yn y Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol ar 23 Mai 2018.	Pawb
Anfon cytundeb ffurfiol oddi wrth y BGC ar gyfer Prosiect Cydweithredol Y 1,000 Diwrnod Cyntaf	Tîm Cymorth y BGC
Cylchredeg y ddolen i'r Cynllun Gweithredu a'r Strategaeth Dementia i aelodau'r BGC.	Tîm Cymorth y BGC
Awgrymu y dylid cynnwys y Strategaeth Dementia ar agenda un o gyfarfodydd rhanbarthol y BGC yn y dyfodol.	Tîm Cymorth y BGC

3. Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin: Y Sir Gâr a Garem - cymeradwyo'n derfynol ac amlinellu'r camau nesaf

- Cadarnhaodd Gwyneth Ayers fod y Cynllun Llesiant wedi mynd drwy'r broses ffurfiol i'w gymeradwyo gan y pedwar partner statudol, ac na fu angen unrhyw ddiwygiadau. Roedd y cynllun terfynol yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo'n derfynol yng nghyfarfod heddiw, gydag nifer o fân ddiwygiadau, gan gynnwys newid yr Arweinydd Arbenigol yng Ngrŵp Ymyrraeth y Blynnyddoedd Cynnar i Wasanaeth Tân ac Achub Gorllewin a Chanolbarth Cymru. Cytunwyd ar y diwygiadau a chymeradwyo'r Cynllun.
- Esboniwyd mai'r camau nesaf oedd cytuno ar aelodaeth y Grwpiau Cyflawni a'u gwahodd i gyfarfod a fyddai'n cael ei gynnal gan Polly Sills-Jones, y Cydgysylltydd Rhanbarthol. Byddai'n fuddiol iddynt gwrdd cyn lansio'r Cynllun ar 21 Mehefin fel bod modd i randdeiliaid allweddol drafod, yn y lansiad, yr hyn yr oedd disgwyl i'r Grwpiau fwrw ymlaen ag ef.

- Gofynnwyd am syniadau gan aelodau o'r BGC wrth gynllunio'r lansiad, ac fe gafwyd trafodaeth eang yn dilyn hynny. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys sicrhau bod trawstoriad o gymdeithas yn derbyn gwahoddiad, cynnwys gwirfoddolwyr, caffï creadigol, Ffair Llesiant gyda sefydliadau a all gynnig cymorth i wella llesiant, trefnu bod rhywun enwog lleol sydd yn byw yn iach yn bresennol. Trafodwyd defnydd arloesol o'r cyfryngau cymdeithasol a chytuno ei bod hi'n bwysig sicrhau bod y digwyddiad yn ymarferol, gan roi cyfle i gyfranogwyr drafod sut y gallent gyfrannu at gynnydd y Cynllun. Cadarnhawyd bod bwriad i ddefnyddio'r digwyddiad i gynnwys rhanddeiliaid yn y broses o ddatblygu cynlluniau gwaith y Grwpiau Cyflawni.
- Nodwyd y ffaith bod gwaith y Grwpiau Cyflawni yn gorgyffwrdd, ac mai rôl y Grwpiau fyddai cyflwyno rhai o'r cynlluniau a drafodwyd.
- Gellid dysgu gwersi yn sgil yr ymarfer ymgynghori cyfredol a oedd yn cael ei gynnal gan BIPHDd ar 'Drawsnewid Gwasanaethau Clinigol' a gellid defnyddio digwyddiadau eraill a oedd wedi'u cynllunio ac a oedd yn cael eu cynnal yn y sir fel llwyfannau i ymgysylltu â'r cyhoedd.
- Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i ddefnyddio'r 21 Mehefin i gynnal cyfarfod cychwynol aelodau'r Grwpiau Cyflawni ac y dylid gohirio lansiad'r Cynllun Llesiant tan yr hydref.

GWEITHREDU

Cysylltu â swyddogion arweiniol i gytuno ar aelodaeth y Grwpiau Cyflawni.	Gwyneth Ayers
Diwygio'r dyddiadau a gynlluniwyd ar gyfer cyfarfod dechreuol aelodau'r Grwpiau Cyflawni a'r digwyddiad Lansio	Gwyneth Ayers

4. Hywel Dda: Ein Newid Mawr yn y GIG

- Cyflwynodd Sarah Jennings Dr Jeremy Williams, Meddyg Ymgynghorol yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys yng Nglangwili, a dywedodd fod cynlluniau'r Bwrdd Iechyd wedi cael eu cynhyrchu ar y cyd â'r Gwasanaeth Ambiwlans, yr Heddlu, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a'r Gwasanaeth Tân.
- Rhoddodd Dr Williams wybodaeth gefndirol ynghylch yr angen i gyflwyno newidiadau mawr i'r gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gwirfoddol a oedd yn cael eu darparu. Amlinellodd yr heriau o flaen y Bwrdd Iechyd, a'i ddyheadau, a nododd nad oedd ar hyn o bryd yn darparu'r gofal yr oedd ei angen nac yn cyflenwi gwasanaethau mewn modd effeithlon. Roedd angen ymdrin â chwestiynau allweddol yn gysylltiedig ag angen, ansawdd, hygyrchedd, gwerth a chynaliadwyedd. Roedd y broses hon yn cynnwys tri cham:
 1. Darganfod - datblygu achos strategol ar gyfer newid (Mehefin - Tachwedd 2017)
 2. Dylunio - cytuno ar fodel gofal i'r dyfodol (Rhagfyr 2017 - Medi 2018)
 3. Cyflawni - trawsnewid a rhoi newidiadau penodol ar waith (2018-2025)
- Esboniwyd cwmpas yr ymgynghoriad a chadarnhawyd yr hyn a oedd yn agored i ddylanwad yn ystod yr ymgynghoriad, a'r hyn nad oedd yn agored i hynny. Mae'r holl gynigion yn cynnwys ffocws ar ddarparu gwasanaethau drwy fodel cymunedol yn seiliedig ar fodel 10 canolfan a fyddai'n cynnwys 4 yn Sir Gaerfyrddin: Llanymddyfri; Cross Hands; Rhydaman; a Llanelli. Yn ogystal â hynny, mae'r holl gynigion yn cynnwys datblygu ysbyty gofal brys mawr newydd rhwng Arberth a San Clêr. Croesewir safbwyntiau ynghylch sut y gellir cyflawni'r rhain.
- Mae ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar dri chynig ar gyfer darparu gwasanaethau ysbyty yn y dyfodol, sef :
 1. Dau ysbyty gofal brys a gofal wedi'i gynllunio - Bronglais ac ysbyty newydd - ac eraill fel ysbytai cymunedol (Glangwili, y Tywysog Philip a Llwynhelyg).
 2. Tri ysbyty - cadw'r Tywysog Philip fel ysbyty cyffredinol lleol, Bronglais ac ysbyty newydd - gyda Glangwili a Llwynhelyg fel ysbytai cymunedol
 3. Pedwar ysbyty - Bronglais, ysbyty newydd, Y Tywysog Philip fel ysbyty cyffredinol lleol a Glangwili ac ysbyty gofal wedi'i gynllunio - gan gadw Llwynhelyg fel ysbyty cymunedol.
- Nodwyd bod gwaith datblygu 'Trawsnewid Gwasanaethau Iechyd Meddwl yn cael ei ystyried yn llawn wrth ddatblygu'r cynigion hyn .

- Nodwyd bod nifer o grwpiau galluogi wedi darparu gwybodaeth ar gyfer y cynigion ee, trafndiaeth, TG a digidol, ystadau.
- Roedd ystod o ddulliau ymgynghori ac ymgysylltu yn cael eu defnyddio er mwyn sicrhau cymaint o fewnbwn ag a oedd yn bosibl i'r broses hon, gan gynnwys sesiynau galw heibio i'r staff a'r cyhoedd, ymgysylltu â chymunedau eraill fel pobl ifanc sydd wedi'u dadurthio a thai gwarchod , fideos i bobl ifanc, gwaith animeiddio yn seiliedig ar deulu sy'n cynrychioli'r problemau iechyd a wynebir yn lleol.
- Cafwyd trafodaeth yn dilyn hyn a chadarnhawyd nad oedd yr un o'r cynigion yn cael eu ffafrio gan y Bwrdd Iechyd ar y pryd hwnnw. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod mis Medi 2018 o'r Bwrdd Iechyd er mwyn penderfynu sut i symud ymlaen.
- Mewn ymateb i'r pwynt nad oedd y dogfennau dan sylw yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at wasanaethau mamolaeth, a'r cwestiwn ynghylch sut y byddai Bronglais yn cael ei gynnwys, cadarnhawyd y byddai hyn yn cael ei ystyried ymhellach ac y byddai'r ymgynghoriad yn cyfrannu at yr ystyriaeth honno.
- Soniwyd nad oedd unrhyw gyfeiriad at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn unrhyw un o'r dogfennau. Ar ben hynny, yr oedd teimlad nad oedd yr ymagwedd yn ymddangos yn gydweithredol ac nad oedd yn fodel iechyd a gofal cymdeithasol integredig. Roedd y Bwrdd Iechyd yn cydnabod nad oedd y dogfennau'n cyfeirio'n amlwg at y Ddeddf, ond bod hynny'n rhan greiddiol o'r broses wrth sicrhau bod gwasanaethau'n addas i'r diben, bod y model cymunedol yn cefnogi cyflawni'r Ddeddf, ac y cafwyd cydweithio agos iawn rhwng partneriaid er mwyn datblygu'r cynigion. Cytunodd y Bwrdd Iechyd y gallai'r dogfennau gyfeirio'n fwy eglur at y Ddeddf. Trafodwyd cylch gorchwyl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol o ran iechyd a gofal cymdeithasol yn ogystal â chylch gorchwyl ehangach y BGC a'r model trawsnewid.
- Dywedwyd nad oedd y cyflwyniad yn cynnwys unrhyw sôn am feddygon teulu/gofal sylfaenol, er bod y rôl honno'n allweddol o safbwynt y cyhoedd, gan mai dyna yw'r pwynt cyswllt cyntaf yn aml. Cytunwyd bod meddygon teulu yn hanfodol er mwyn darparu gwasanaethau. Mae angen denu meddygon newydd i'r ardal a byddai'r rhaglen drawsnewid yn helpu gyda'r problemau a geir ar hyn o bryd wrth geisio cadw gweithwyr yn eu swyddi.
- Cytunwyd y byddai'r partneriaid yn cael gwybod am gynnydd wrth i'r cynigion ddatblygu.

GWEITHREDU

Gofyn am ddeunyddiau ymgynghori oddi wrth y Bwrdd Iechyd yn gysylltiedig â'r ymgynghoriad ar 'Drawsnewid Gwasanaethau Clinigol' os oedd angen.	Pawb
Cylchredeg y cyflwyniad i aelodau'r BGC	Tîm Cymorth y BGC
Ystyried y cysylltiadau rhwng ffrydiau gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Grwpiau Cyflawni'r BGC.	Sarah Jennings a Gwyneth Ayers
Sicrhau bod y cyfeiriad at 'Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol' yn fwy eglur yn neunyddiau'r ymgynghoriad.	Sarah Jennings

5. Grŵp Cydweithio Asedau Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru

- Roedd llythyr wedi cael ei gylchredeg gan Jonathan Fearn, Pennaeth Eiddo'r Cyngor, yn gysylltiedig â grŵp rhanbarthol newydd ar gyfer ardal Bwrdd Iechyd Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Powys. Cytunwyd y dylai'r adnoddau a ddefnyddiwyd yn flaenorol ar gyfer ffrwd waith ystadau BGC Sir Gaerfyrddin fod yn bresennol yn y grŵp rhanbarthol. Byddai'r grŵp lleol yn cael ei ohirio hyd ddiwedd y gwaith rhanbarthol, er mwyn osgoi ail-wneud unrhyw waith.

GWEITHREDU

Hysbysu Jonathan Fearn (jfearn@sirgar.gov.uk) am unrhyw newid o ran cynrychiolydd y sefydliad fydd yn mynychu'r grŵp rhanbarthol	Pawb
--	------

6. Cynnig Prifysgol Abertawe i WEFO am Sefydliad Diwydiannau Heneiddio'n Greadigol

- Rhoddodd Jane Davidson amlinelliad o'r cyd-gynnig a oedd yn cynnwys tair prifysgol, gan gynnwys Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant sy'n canolbwyntio ar heneiddio'n ddigidol mewn ffordd greadigol. Cytunodd y BGC i gefnogi'r cynnig mewn egwyddor.

GWEITHREDU

Cadarnhau cefnogi cynnig y prosiect mewn egwyddor

Tîm Cymorth y BGC

7. Unrhyw Fater Arall

- I'r sefydliadau hynny sy'n defnyddio 'Skype for Business', amlinellodd Gwyneth Ayers gynnis lle gellid ffedereiddio'r systemau ar draws partneriaid y BGC er mwyn galluogi swyddogion i gysylltu'n haws y naill â'r llall. Roedd hyn eisoes ar waith rhwng y Cyngor a CNC. Awgrymodd Jane Davidson y gellid hefyd edrych ar 'Zoom' ar gyfer cyfarfodydd a oedd yn cynnwys nifer fawr o gyfranogwyr. Cytunwyd i ffedereiddio systemau rhwng y sefydliadau fel bo modd defnyddio 'Skype for Business'.
- Atgoffodd Barry Liles yr aelodau am gyfarfod rhanbarthol y BGC a oedd yn cael ei gynnal ar 25 Mehefin 2018. Rhoddwyd amlinelliad o'r agenda a gynigiwyd ar gyfer y cyfarfod, ac awgrymodd Sarah Jennings ei bod hi'n bosibl na fyddai angen cynnwys yr eitem 'Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol' mwyach. Byddai'r Strategaeth Dementia hefyd yn cael ei awgrymu fel eitem bosibl ar yr agenda, fel y cytunwyd yn flaenorol.
- Rhoddodd Jonathan Feild y newyddion diweddaraf ynghylch gweithredu Credyd Cynhwysol yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion, sef bod hynny wedi'i ohirio hyd 12 Rhagfyr 2018. Y rheswm am hyn oedd na fyddai'r plattform Cymraeg ar gael cyn y dyddiad hwnnw.
- Dywedodd Jane Davidson y byddai'n cyfweled â Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, am y drydedd flwyddyn yn olynol, yn rhan o Wyl y Gelli. Byddai'r cyfweiliad hwnnw'n cael ei gynnal ar 1 Mehefin am 4pm ar lwyfan Cymru.
- Cyfeiriodd Huwel Manley at rannu gwybodaeth am bobl sy'n agored i niwed, ac at wefan Cymru Gydnerth.
- Dywedodd Sarah Jennings fod y Bwrdd Iechyd wedi cael ei alw i roi tystiolaeth yn ymgynghoriad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar leihau tlodi a BGCau, am nad oedd wedi ymateb yn yn uniongyrchol i'r ymholiad. Cadarnhaodd Gwyneth Ayers fod y BGC hefyd wedi cael cais i fod yn bresennol yn y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, ac y byddai Barry Liles a hithau yn cynrychioli'r BGC. Mynegodd y partneriaid bryder bod y Pwyllgor yn gwahodd rhai aelodau unigol o'r BGC i roi tystiolaeth, yn hytrach na phawb. Cytunwyd y byddai ymholiadau pellach yn cael eu gwneud er mwyn cael cadarnhad ynghylch natur yr ymholiad a pham bod rhai partneriaid wedi cael gwahoddiad yn hytrach nag eraill.

GWEITHREDU

Rhoi manylion cyswllt arweinwyr TG sefydliadol i Gwyneth Ayers	Pawb
I'w gynnwys fel eitem ar agenda yn y dyfodol - Y Newid yn yr Hinsawdd a'r Gallu i Wrthsefyll Hynny - gan gynnwys defnyddio gwefan Cymru Gydnerth	Huwel Manley / Gwyneth Ayers
Cadarnhau pwrrpas a chwmpas ymholiad Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Cynulliad Cenedlaethol ynghylch BGCau, a pham bod rhai partneriaid unigol yn cael cais i ddarparu tystiolaeth	Gwyneth Ayers
Ymholi ymhellach gyda chlerc y Pwyllgor	Jean White

- Cadarnhaodd Barry Liles y byddai'n ymddeol o'i rôl bresennol ddiwedd mis Awst 2018 ac y byddai'n derbyn rôl gyda Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Cytunai'r aelodau fod Barry wedi chwarae rhan allweddol yn uno partneriaid drwy'r BGC a bod gwerthfawrogiad mawr ohono yn ei rôl fel cadeirydd. Byddai trafodaeth bellach yn cael ei chynnal ynghylch trefniadau cadeirio yn y dyfodol yng nghyfarfod y BGC ym mis Gorffennaf 2018.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 12 Gorffennaf am 2pm yn y Goleudy, Llanelli.

	Crynodeb o'r Pwyntiau Gweithredu	Pwy	Diweddariad
	Camau gweithredu o gyfarfod 2 Mai 2018		
1	Sicrhau bod enw cynrychiolydd yn cael ei gadarnhau i fod yn bresennol yn y Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol ar 23 Mai 2018.	Pawb	Wedi ei gwblhau.
2	Anfon cytundeb ffurfiol oddi wrth y BGC ar gyfer i ymuno â Chynllun Cydweithredol Y 1,000 Diwrnod Cyntaf	Tîm Cymorth y BGC	Parhau, cysylltiad i'r Grŵp Gweithredu Ymyrraeth Gynnar
3	Cylchredeg y ddolen i'r Cynllun Gweithredu a'r Strategaeth Dementia i aelodau'r BGC.	Tîm Cymorth y BGC	Wedi ei gwblhau.
4	Awgrymu y dylid cynnwys y Strategaeth Dementia ar agenda un o gyfarfodydd rhanbarthol y BGC yn y dyfodol.	Tîm Cymorth y BGC	Wedi ei gwblhau.
5	Cysylltu â swyddogion arweiniol i gytuno ar aelodaeth y Grwpiau Cyflawni.	Gwyneth Ayers	Wedi ei gwblhau.
6	Diwygio'r dyddiadau a gynlluniwyd ar gyfer cyfarfod dechreuol aelodau'r Grwpiau Cyflawni a'r digwyddiad Lansio	Gwyneth Ayers	Wedi ei gwblhau.
7	Gofyn am ddeunyddiau ymgynghori oddi wrth y Bwrdd Iechyd yn gysylltiedig â'r ymgynghoriad ar 'Drawsnewid Gwasanaethau Clinigol' os oedd angen.	Pawb	Wedi ei gwblhau.
8	Cylchredeg y cyflwyniad i aelodau'r BGC	Tîm Cymorth y BGC	Wedi ei gwblhau.
9	Ystyried y cysylltiadau rhwng ffrydiau gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Grwpiau Cyflawni'r BGC.	Sarah Jennings / Gwyneth Ayers	Parhau.
10	Sicrhau bod y cyfeiriad at 'Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol' yn fwy eglur yn neunyddiau'r ymgynghoriad.	Sarah Jennings	
11	Hysbysu Jonathan Fearn (jfearn@sirgar.gov.uk) am unrhyw newid o ran y cynrychiolydd sefydliadol fydd yn mynychu'r grŵp rhanbarthol	Pawb	Wedi ei gwblhau.
12	Cadarnhau cefnogi cynnig prosiect Prifysgol Abertawe mewn egwyddor	Tîm Cymorth y BGC	Wedi ei gwblhau.
13	Rhoi manylion cyswllt arweinwyr TG sefydliadol i Gwyneth Ayers	Pawb	Wedi ei gwblhau.
14	I'w gynnwys fel eitem ar agenda yn y dyfodol - Y Newid yn yr Hinsawdd a'r Gallu i Wrthsefyll Hynny - gan gynnwys defnyddio gwefan Cymru Gydnerth	Huwel Manley / Gwyneth Ayers	I'w drefnu fel rhan o'r Grŵp Gweithredu Amgylchedd Iach.
15	Cadarnhau pwrpas a chwmpas ymholiad Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Cymunedau'r Cynulliad Cenedlaethol ynghylch BGCau, a pham bod rhai partneriaid unigol yn cael cais i ddarparu tystiolaeth	Gwyneth Ayers	Wedi ei gwblhau.
16	Ymholi ymhellach gyda chlerc y Pwyllgor	Jean White	Wedi ei gwblhau.